RDC(3) P&D18

Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i Dlodi ac Amddifadedd yn y Gymru Wledig

Sylwadau Cyngor Gwynedd

Prif Negeseuon

Mae amryw o negeseuon ymhlyg yn y ddogfen sydd yn galw am sylw gan yr Is-bwyllgor ond fe grynhoir y prif negeseuon yma:-

- **Gweledigaeth ar gyfer Cefn Gwlad Cymru** – Mae'n ymddangos nad oes gan y Cynulliad weledigaeth ystyrlon ar gyfer ardaloedd gwledig Cymru. Hyd yn hyn, mae'n ymddangos bod gweledigaeth ar gyfer ardaloedd twf naturiol ond nad oes cyfeiriad polisi hyfyw ar gyfer yr ardaloedd gwledig, eu natur a'u rôl i'r dyfodol. Rhaid datblygu polisi clir a hyfyw.

- **Natur Amddifadedd Gwledig** - Mae angen deall natur a dwyster amddifadedd gwledig a sicrhau bod hynny yn cael ei amlygu ac yn dylanwadu ar benderfyniadau polisi allweddol yn rhai o'r meysydd a nodir yn y papur sy'n dilyn. Rhaid deall y broblem a wedyn llunio cynigion penodol i ymateb iddo. Gall rai o'r pwyntiau yn y ddogfen hyn fod o gymorth.

- **Lledaenu Twf** - Rhaid datblygu mecanweithiau i ledaenu twf y tu allan i ardaloedd twf naturiol er mwyn milwrio yn erbyn y grymoedd sydd yn creu ac yn atgyfnerthu amddifadedd mewn ardaloedd gwledig. Nid yw disgwyl y bydd twf yn lledaenu yn ddigon da. Rhaid datblygu syniadau i wneud hynny, eu profi a wedyn cymryd camau polisi pendant i sicrhau'r lledaenu hynny.

- **Tai a Datblygu yng Nghefn Gwlad** – Mae darpariaeth tai addas a fforddiadwy yn greiddiol i gynaladwyedd ardaloedd gwledig. Rhaid sicrhau felly bod cynigion polisi cenedlaethol a lleol yn cyd-weithio i gefnogi datblygiad cefn gwlad yn ngoleuni hynny. Ar hyn o bryd, nid felly y mae hi.

- **Cludiant a Mynediad at Wasanaethau -** Mae ymyledd wrth wraidd problemau ardaloedd gwledig. Rhaid sicrhau trefniadau cludiant effeithiol a fforddiadwy er mwyn sicrhau'r mynediad at wasanaethau a chyfleon sydd wrth wraidd y cysyniad o amddifadedd. Bydd angen adnoddau i wireddu hynny

Rhagair

1. Mae Cyngor Gwynedd yn amlwg yn gweithredu mewn ardal sydd yn bennaf yn wledig ac yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried natur tlodi ac amddifadedd. Mae'r Cyngor, yn ei Gynllun Strategol Tair Mlynedd, y mae'n ymgynghori amdano ar hyn o bryd, yn nodi bod yr Agenda Wledig yn un o'i Flaenoriaethau Gweithredol. Yn ogystal, mae gan y Cyngor Flaenoriaeth Gweithredol arall, sef Blaenoriaethu Cymunedau o Angen ac, o dan hynny, mae Dadansoddi sut mae Torri'r Cylch Amddifadedd yn un o'r cynlluniau allweddol.

2. Mae'r Cyngor felly yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y craffu hwn ac yn gobeithio y daw cynigion polisi cadarn allan o'r gwaith a fydd yn gwneud newidiadau arwyddocaol i'r ymdriniaeth o ardaloedd gwledig

Negeseuon Cyffredinol

3. Prif ddadl y cyflwyniad hwn yw bod natur amddifededd gwledig yn bur wahanol i amddifadedd trefol sydd yn fwy amlwg ac yn haws i'w weld, ei fesur a felly i ymateb iddo. Mae nifer o elfennau allweddol o amddifadedd gwledig yn gudd ond yn real a dwys er hynny. Yn Atodiad 1 i'r papur hwn, crynhoir rhai pwyntiau cyffredinol am natur Gwynedd fel sir sydd yn profi ac arddangos y fath amddifadedd a dadansoddiad o brif yrrwyr amddifadedd mewn sir wledig.

Daearu'r Negeseuon hynny mewn meysydd penodol

4. Nodir yma bwyntiau manwl sydd yn daearu'r negeseuon cyffredinol uchod mewn meysydd penodol. Ym mhob achos, rydym yn amlinellu natur amddifadedd gwledig yn y maes unigol, yn cynnig tystiolaeth o hynny ac yn cynnig ymyrraethau polisi allweddol mewn ymateb i hynny

A. Y Maes – Yr Economaidd Anweithredol

1. Mae'r her o ddelio gydag anactifedd economaidd a natur yr amddifadedd gwledig arbennig sydd yn gysylltedig â hynny yn fater o'r pwys mwyaf i sir fel Gwynedd.

2. Mae patrwm o anactifedd economaidd uwch yn yr ardaloedd gwledig a hynny'n gysylltiedig â nifer o'r meysydd eraill sydd yn cael eu nodi isod. Mae map sydd yn dangos y patrwm anactifedd yn y Sir ynghlwm fel

Atodiad 2

3. Yn ogystal, mae problemau cludiant a mynediad yr ardaloedd hynny yn gwneud y sefyllfa yn waeth. Er engraifft, oherwydd y rheidrwydd i hawlio budd-dal penodol i fod yn gymwys am gefnogaeth o dan y Cynllun Genesis, mae sefyllfa rhywun yn ardal yn Bala yn golygu bod yn rhaid iddynt deithio i Ganolfan Byd Gwaith Wrecsam (taith dwy awr ar fws) i gofrestru a hawlio

Tystiolaeth

- Mae diffyg argaeledd swyddi mewn ardaloedd gwledig ac anawsterau teithio i gael mynediad at swyddi (gyda golwg ar incwm) yn broblem gwirioneddol mewn ardaloedd gwledig

- Mae'r ardaloedd lle mae anactifedd uchel (dros 28%) mewn oed gweithio o fewn y sir yn ardaloedd gwledig yn Nwyfor a Meirionnydd

- Y grŵp oedran 50-65 yw'r unig un yng Nghymru na welodd ostyngiad mewn cyfraddau anweithgarwch economaidd ac mae hynny'n arwyddocaol o edrych ar batrwm oedran y boblogaeth ardaloedd gwledig

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod y gwahaniaeth yn y cyfleoedd sydd ar gael i ardaloedd gwledig anghysbell o gymharu ag ardaloedd mwy hygyrch, a dylai'r Is-bwyllgor ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru archwilio'r gwahaniaethau ym mherfformiad economaidd ardaloedd gwledig anghysbell ac ardaloedd gwledig hygyrch fel mater o flaenoriaeth.

2. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru flaenoriaethu ansawdd swyddi (yn hytrach na niferoedd swyddi) fel maen prawf ar gyfer buddsoddiad cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru

3. Dylid archwilio'r modd y gellir gwella ansawdd hunan gyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, fel ei fod yn ddewis deniadol i bobl yn hytrach nag yn rheidrwydd gyda chyflog isel yn absenoldeb unrhyw gyfleoedd eraill

4. Dylid cynnal ymchwiliad i'r niferoedd sy'n derbyn budd-daliadau mewn gwaith ac heb waith yn rhannau ymylol Cymru ac i ystyried yr angen i gynyddu'r nifer sy'n derbyn budd-daliadau mewn ardaloedd o'r fath

B. Y Maes – Plant a Phobl Ifainc

1. Mae Gwynedd yn ardal peilot i edrych ar dlodi plant ac mae gwaith cefndirol i'r prosiect hwnnw wedi dangos bod natur economi'r ardal a dibyniaeth ar gyflogaeth rhan amser ac isel yn cael effaith arwyddocaol ar dlodi plant.

2. Ffactor bwysig arall o ran natur amddifadedd gwledig yw'r rhwydweithiau angenrheidiol i gefnogi gwead cymdeithas – yn rhwydweithiau teulu a gofal. Mae perifferaledd yn gyrru anghydbwysedd demograffig gan bod y diffyg cyfleon i bobl ifainc mewn ardaloedd gwledig yn rhwym o waethygu'r sefyllfa honno wrth i lai o bobl ifainc aros mewn ardal

3. Heb bod camau yn cael eu cymryd i filwrio yn erbyn y tueddiad hyn, bydd cymunedau gwledig yn dod yn llai cynaladwy a'r amddifadedd ynddynt yn cynyddu ymhellach.

4. Mae mynediad at ofal plant yn fater o bryder sy'n gysylltiedig â'r awydd i sicrhau mynediad at waith (fel datrusiad cadarn ar gyfer symud o dlodi). Mae Cynllun Dechrau'n Deg wedi ei dargedu i brif ardaloedd amdifadedd gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd Lluosog. Golygu hyn nad yw awdurdodau yn medru defnyddio adnoddau o'r fath yn hyblyg i ymateb i anghenion ardaloedd gwledig.

Tystiolaeth –

- Mae lefelau incwm yn y de-orllewin a'r gogledd orllewin gyda'r isaf gydag un o bob pump yn y Gymru Wledig ar gyflogau isel Mae gwaith diweddar gan y Cynulliad ar dlodi wedi nodi mai gwaith yw'r ffordd allan o'r cylch hwn.

- Mae ymchwil gyda thadau yng Ngwynedd yn dangos mai rhwydweithiau anffurfiol a theuluol sydd yn eu galluogi i fynd i weithio gan bod gofal plant yn rhy brin ac yn rhy ddrud

- Mae ymchwil gan Gyngor Gwynedd (sydd wedi ei gyhoeddi gan NCH and Barnardo's Cymru) yn dangos bod cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol yn gyfyng iawn i blant a phobl ifainc mewn ardaloedd gwledig

- Rhwng 1997-2001 roedd cynnydd mewn allfudo ymysg pobl ifainc Gwynedd rhwng 16 a 24 in Gwynedd o 12% 1 14%

- Mewn astudiaeth o dan Cynllun Llwybro nododd 36% o rai dan 26 eu bod yn ystyried gadael ardaloedd gwledig

- Mae ffigurau Cyfrifiad 2001 yn dangos bod carfannau oed 25-29, 30-34,

35-39, 40-44 yng Ngwynedd yn sylweddol is na chyfataledd Prydain

- Mae cyfradd y bobl sy'n derbyn Credyd Treth Teuluoedd Mewn Gwaith yn uwch mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol, a mae cyfradd uchaf y rhai oedd yn derbyn budd-daliadau yn yr ardaloedd gorllewinol a mwy ymylol a gwledig – Sir Benfro, Ynys Môn, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid drwy rhaglen Llwyddo'n Lleol wedi treialu cynlluniau arloesol i hybu manteision ardaloedd gwledig i bobl ifainc fel mannau i fentro a chyfrannu at economi a chymunedau byw

2. Bwriedir datblygu peilot i gynnig cymorth ymarferol i rai sy'n dymuno dychwelyd yn 2008/13

C. Y Maes – Pobl Hyn

1. Mae heneiddio gwledig yn cael ei esgeuluso. Soniwyd eisoes am bwysigrwydd rhwydweithiau cefnogi o fewn cymunedau sydd yn dioddef o amddifadedd gwledig. Mae'r rhwydweithiau anffurfiol hynny yn bwysig ond mae mynediad at wasanaethau hanfodol ar gyfer y gefnogaeth hynny hefyd yn hanfodol.

2. Mae amddifadedd yn cyfeirio at y problemau sy'n deillio o ddiffyg adnoddau a chyfleoedd yn gyffredinol a'r cymysgedd peryglus o anfanteision amrywiol sydd yn dod ynghyd mewn ardal o'r fath. Mae rhain yn cynnwys mynediad i ac argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau, a cydnabyddiaeth o'r berthynas rhwng tai, trafnidiaeth a'r gallu i brynu bwyd

3. Mae problemau recriwtio gwirioneddol ar gyfer gwasanaethau craidd i bobl hyn mewn ardaloedd gwledig – problem sydd am gynyddu os yw'r diffyg cydbwysedd oedran mewn cymdeithas am barhau fel yr ydym yn disgwyl

4. Mae tlodi incwm ymysg pobl hyn yn ffactor arwyddocaol mewn ardaloedd gwledig hefyd a hynny, yn ei dro yn arwain at broblemau cynhesu mewn stoc tai hyn sydd yn anodd i'w gwresogi

Tystiolaeth –

- Powys (46%), Ceredigion (45%), Sir Benfro (41%), Ynys Môn (25%), Sir Fynwy (24%), Sir Gaerfyrddin (21%), a Gwynedd (20%) oedd â'r ganran uchaf o'u Hardaloedd Cynnyrch Ehangach yn y deg y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran amddifadedd mynediad at wasanaethau

(DS Roedd y Mynegai oedd yn mesur mynediad at wasanaethau sylfaenol fel mynediad at siop fwyd, mynediad at lyfrgell gyhoeddus, mynediad at feddygfa, mynediad at ganolfan hamdden, mynediad at ysgol gynradd, mynediad at ddeintydd y GIG, mynediad at swyddfa'r post ạ mynediad at ysgol uwchradd)

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Mae angen cytundeb efo Gwasanaeth Pensiwn i rannu data ac yn y blaen er mwyn hwyluso hawlio budd-dâl

2. Dylid pwyso i gael siwrne trên neu ddarpariaeth arall am ddim hefyd i bobl hŷn a chludiant cymunedol pan nad oes bysiau ar gael

3. Dylid ystyried hygyrchedd adeiladau a gwasanaethau i boblogaeth sy'n heneiddio ee cau swyddfeydd post

Ch. Y Maes – Cludiant

1. Mae hwylustod mynediad yn elfen greiddiol a dylanwadol o natur gwahanol amddifadedd gwledig. Mae hyn yn cael effaith ar sawl carfan.

2. Mae costau y rhai sydd mewn gwaith yn uwch oherwydd effaith perifferaledd a'r angen i deithio ymhellach ar gyfer gwaith a gwasanaethau hanfodol yn ogystal â'r broblem gyffredinol o ymyledd sydd yn greiddiol i natur yr amddifadedd yn yr ardaloedd hyny

3. I'r ifainc, mae'n golygu eu hamddifadu o gyfleoedd ac i bobl hyn mae'n golygu anhawster teithio i gael mynediad at wasanaethau sylfaenol

4. I bobl hyn, mae'n golygu gwir drafferth goresgyn yr anawsterau mynediad i wasanaethau sylfaenol y mae'r Mynegai Amddifadedd wedi ei adnabod

Tystiolaeth –

- Mae'n costio hyd at £170.92 y mis i deithio i waith ym Mangor o ardal wledig (Sarn Mellteyrn yn Nwyfor) neu £94.88 ar fws ar gyfer yr un daith (er y byddai'r daith hynny'n cymryd 2 awr a 25 munud ac na fyddai'n bosib cyrraedd cyn 9 o'r gloch y bore)

- Mae tystiolaeth bod y nifer sy'n hawlio budd-dal yn is mewn ardaloedd gwledig a bod diweithdra yn cael ei danamcangyfrif.

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Mae angen buddsoddi yn is-adeiledd sylfaenol ardaloedd gwledig i sicrhau mynediad – trwy ffyrdd, darpariaeth cludiant a thechnoleg gwybodaeth

2. Mae angen cefnogaeth benodol o du'r Cynulliad i gefnogi mentrau cludiant integredig arloesol yn cynnwys cludiant cymunedol mewn ardaloedd gwledig

3. Dylid datblygu cynlluniau penodol fel y grant ar gyfer cludiant ysgol (Cynulliad trwy'r WLGA) ar gyfer treialu modelau newydd mewn cefn gwlad yn ehangach na cludiant cymunedol traddodiadol

4. Dylid ystyried sicrhau cyllideb statudol ar gyfer cludiant ôl-16 i addysg ac hyfforddiant

D. Y Maes – Ffynonellau Ariannol

1. Mae fformiwlau sydd yn gyrru dyrannu ffynonellau ariannu amrywiol yn dueddol o ganoli sylw yn sgil dwysedd problem a mae hynny ynddo'i hun yn arwain at roi blaenoriaeth i ardaloedd poblog. Mae hynny er bod lefel a natur yr amddifadedd mewn ardal wledig, mewn termau cymharol, er yn wahanol, yn medru bod cynddrwg os nad gwaeth.

2. Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog a'r adolygiad ohonno arweiniodd at ddefnyddio ardaloedd yn seiliedig ar niferoedd poblogaeth fel blociau adeiladu'r mynegai yn engraifft pellach o fformiwla yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan ddwysedd poblogaeth. Gwelir enghreifftiau o hyn yn y dull ariannu ar gyfer y Grant Amddifadedd (a ddyrennir y tu allan i'r fformiwla Asesiad Gwariant Safonol) a'r grant RHAGORI ar gyfer codi cyrhaeddiad addysgol ymhlith disgyblion difreintiedig.

3. Yn ogystal mae fformiwlau ar gyfer dyrannu cyllid i gyrff cyhoeddus yn aml yn anwybyddu cost uwch darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. O ganlyniad fe fydd y gost yma un ai'n disgyn yn faich ychwanegol ar drethdalwyr yr ardaloedd hynny, neu'n golygu y bydd y trigolion hynny'n derbyn gwasanaethau o safon is nag ardaloedd eraill

Tystiolaeth –

- Dyrennir y Grant Amddifadedd ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, sy'n dueddol o ganolbwyntio ar grynhoadau o amddifadedd mewn ardaloedd poblog. O ganlyniad fe dderbynia Caerdydd a Chasnewydd – dwy ddinas yn y rhan o Gymru a ystyrir y mwyaf ffyniannus - fwy o arian amddifadedd fesul pen o'u poblogaeth na Gwynedd.

- Mae arian Dechrau'n Deg a CYMORTH, i rhyw raddau, wedi ei ddyrannu yn yr un modd gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd – O ganlyniad mae ardaloedd gwledig yn colli allan

- Cyfyngwyd dyraniad y grant RHAGORI (RAISE) i'r ysgolion hynny oedd â chyfran uwchlaw trothwy penodol o'u disgyblion yn hawlio prydau am ddim. Gan bod ysgolion gwledig yn gwasanaethu ardaloedd mwy eang ac amrywiol nag ysgolion trefol dim ond mewn ychydig ohonynt yr oedd nifer y disgyblion o gefndir difreintiedig yn ddigon, fel cyfran o'r cyfanswm, i fod yn gymwys ar gyfer unrhyw gyllid

- Nid oes ffactor yn y fformiwla Asesiad Gwariant Safonol i ddigolledu cynghorau lleol ar gyfer, er enghraifft, cost uwch darparu gofal cartref i henoed mewn ardaloedd gwledig. Dengys tystiolaeth o fewn Gwynedd bod cost teithio at gleientau tua dwywaith yn uwch yn yr ardaloedd gwledig nag yn yr ardaloedd trefol.

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Mae'r gwaith ar sefydlu isafswm safonau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cynnig cyfle i gydnabod natur amddifadedd o ran mynediad at wasanaethau wrth gydnabod yr anhawster o gyrraedd at y safonau hynny mewn ardaloedd lle mae costau yn uchel o ran darparu'r gwasanaethau hynny.

2. Mae angen symud ymlaen ar fyrder i gasglu tystiolaeth o'r fath a chywiro'r diffygion yn y defnydd o fformiwlau ariannu gan newid y dull o ddefnyddio gwybodaeth fel bod ystyriaeth mwy meintiol ei natur yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na'r model mwy ystadegol presennol

3. Dylid adolygu'r defnydd o ddangosyddion sy'n seiliedig ar 'grynhoadau' o amddifadedd wrth ariannu gwasanaethau, i sicrhau nad yw amddifadedd mewn ardaloedd gwledig yn cael ei golli

Dd. Y Maes – Tai a Datblygu yng Nghefn Gwlad

1. Mae sefyllfa a natur y farchnad dai presennol yn ardaloedd gwledig Gwynedd yn golygu nad yw nifer helaeth o'r boblogaeth yn cael mynediad i dai fforddiadwy i'w rhentu neu i'w prynu. Mae hyn oherwydd prisiau tai uchel yn erbyn incymau isel mewn cymhariaeth.

2. Mewn ardaloedd gwledig ar arfordirol yng Ngwynedd mae canran uchel o dai haf neu ail gartrefi yn ogystal â phwysau uchel o du allan i Wynedd

am y stoc tai lleol gan olygu cyflenwad isel pris uchel o dai i bobl leol.

3. Mae canran sylweddol o dai mewn ardaloedd ôl-chwarelyddol yng Ngwynedd (sydd yn ardaloedd gwledig) yn is-safonol i safonau y 21fed Ganrif.

4. Mae peryg bod ymateb diweddar yr Archwilydd ar Gynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn mynd i olygu bod y Cyngor yn methu â gwireddu rhai o'r cynlluniau ar gyfer ymateb i'r argyfnwg tai fforddiadwy yn nghefn gwlad

5. Mae ansawdd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi, incwm preswylwyr, y math o danwydd ddefnyddir yn yr eiddo, a'r cynnydd mewn maint biliau ynni dros y blynyddoedd diwethaf oll yn ffactorau dylanwadol sydd yn achosi tlodi tanwydd mewn ardaloedd gwledig

Tystiolaeth –

- Mae'r Rhwydwaith Gwasanaethau Gwledig yn Lloegr newydd gyhoeddi mai diffyg tai fforddiadwy ar rent neu i'w brynu yw'r un ffactor mwyaf sydd yn wynebu pobl mewn ardaloedd gwledig "Tai gwledig yw sylfaen cynaladwyedd cymunedau gwledig i'r dyfodol."

- Rhwng 1981 ac 2006 cafodd dros 40% o stoc tai awdurdod lleol ei werthu drwy Hawl i Brynu neu Werthiant Arall

- Yn ôl Cyfrifiad 2001, roedd 45% o dai Ward Abersoch, 46% o dai Ward Aberdyfi, 20% o dai Ward Corris/Mawddwy, 37% o dai Ward Llanbedrog yn ail gartrefi a llety gwyliau

- Yn ôl Cyfrifiad 2001 roedd 44% o brynwyr tai yn Aberdaron, 41% o brynwyr tai yn Abererch, 47% o brynwyr tai ym Motwnnog, 52% o brynwyr tai yn Harlech yn tarddu o du alla i Wynedd

- Yn 2006 roedd pris cyfartalog tai a werthwyd yn Abersoch yn £380k o gymharu gyda incwm cartref cyfartalog o £25,420 (cymhareb 15:1).

- Yng Ngwynedd yn 2005 roedd y gymhareb prisiau tai cyfartalog i gyflog cyfartalog yn 8:1

- Yn 2004, roedd 38.6% (22,554) o gartrefi Gwynedd yn gwario dros 10% o'u hincwm ar eu biliau ynni, a felly'n dioddef o Dlodi Tanwydd, 11.8% yn gwario dros 20% a 4.2% yn gwario dros 30% a felly'n dioddef tlodi tanwydd erchyll. Mae'r cynnydd diweddar mewn costau tanwydd wedi gwaethygu'r problemau hyn

- Oherwydd natur yr ardal, mae tua 56.5% o stoc tai Gwynedd wedi eu

hadeiladu cyn 1919, ynghyd a'r ffaith bod 60% o'r stoc tai wedi ei hadeiladu o waliau solet yn golygu eu bod yn hynod o hen ac yn hynod o anodd i'w ynysu. Yn ogystal, dim ond tua 49.2% o'r tai sydd â mynediad i'r rhwydwaith nwy

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Datblygu polisïau cynllunio fydd yn hyrwyddo darpariaeth o dai fforddiadwy fydd yn ymateb i'r angen am dai fforddiadwy o fewn cymunedau gwledig.

2. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau adnoddau i ariannu rhwydwaith o Hwyluswyr Tai Gwledig i wasanaethau ardaloedd yn y Gymru Wledig.

3. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu mesurau fydd yn diogelu tai mewn ardaloedd gwledig rhag cael eu troi yn ail gartrefi/tai gwyliau.

4. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymryd y camau priodol i wahardd yr hawl i brynu tai cyngor/cymdeithasau tai.

5. Sicrhau cydweithio agos rhwng datblygwyr a thirfeddianwyr preifat, cymdeithasau tai, cymunedau gwledig (drwy waith yr Hwylusydd Tai Gwledig), Awdurdodau Cynllunio a Tai er mwyn datblygu rhaglen weithredol i ddarparu ystod o dai fforddiadwy yng nghymunedau gwledig Cymru.

6. Yn 2004, rhedodd Gyngor Gwynedd Gynllun Peilot yn y Sector Dai Preifat o'r enw "Yma i Helpu", mewn partneriaeth gyda Nwy Prydain. Mae'r Cyngor a Nwy Prydain wedi penderfynu lledaenu'r Cynllun ar draws y Sir, dros gyfnod o flynyddoedd. Cyflwnir mesurau rhad ac am ddim i osod mesurau effeithlonrwydd ynni, gan dargedu wardiau difreintiedig gyntaf,

7. Mae angen edrych yn ofalus ar faes ynni adnewyddol yng nghyd-destun arbed ynni a lleihau ol-troed carbon

E. Y Maes – Fframweithiau ac Ymyrraethau Strategol

1. Mae'r holl sylwadau uchod yn cadarnhau natur a maint amddifadedd gwledig a'r pwysigrwydd o sicrhau fframweithiau ac ymyrraethau strategol i fynd i'r afael â hyn. Mae'n ymddangos bod nifer o'r fframweithiau presennol yn aneffeithiol o safbwynt yr ardaloedd gwledig os nad yn milwrio yn erbyn eu ffyniant.

2. Mae cyfeiriad y Cynllun Gofodol a'r risg y bydd twf yn cael ei ganoli mewn ardaloedd arbennig, rhai poblog yn bennaf yn milwrio yn erbyn

ffyniant ardaloedd gwledig. Dyna pam y mae'r Cyngor yn pwysleisio'n gyson bod angen lledaenu twf o'r Cymunedau o Gyfle i'r Cymunedau o Angen. Fel y saif y cynigion, mae peryg y bydd canoli twf yn denu pobl o ardaloedd gwledig ac yn dwysau amddifadedd y cymunedau sydd yn weddill

3. Mae'r ymgynghoriad ar Cymunedau Nesaf yn esiampl arall o fframwaith lle mae peryg na fydd digon o sylw i holl elfennau amddfadedd gwledig (mynediad at wasanaethau, newidiadau demograffeg, mewnfudo, poblogaeth hyn, diffyg cyfleon gwaith, tai fforddiadwy ayb). Mae'r ffaith bod awgrym mai'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ac adnoddau cyfyng y rhaglen hwnnw, ddylai gyfarch anghenion mewn ardaloedd gwledig yn amlygu diffyg dealltwriaeth o ddwyster a natur yr amddifadedd yn yr ardaloedd hyn

Tystiolaeth –

- Mae'r Comisiwn Cymunedau Gwledig yn Lloegr yn nodi "Bod angen i bolisiau llywodraeth adlewyrchu'n well natur gudd a gwasgaredig amddifadedd gwledig. Dylid profi polisiau yn erbyn anghenion gwledig i sicrhau eu bod yn medru targedu pobl mewn angen ac nid lleoedd."

Cynigion ac Ymyrraethau Polisi –

1. Mae angen ystyried polisiau rhanbarthol y Cynulliad yn ei ehangder yng nghyd-destun anghenion ardaloedd gwledig, yn bolisiau cynllunio, y Cynllun Gofodol, y defnydd o Arian Cyd-gyfeiriant a chynlluniau mewn meysydd arbennig

2. Dylid hyrwyddo camau fydd yn mynd i'r afael â phrosesau amddifadedd ac eithrio yn yr ardaloedd gwledig yn ogystal â'r canlyniadau sydd yn eu hamlygu eu hunain fel tlodi

3. Dylid pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd o baratoi Mynegrif Ardaloedd Ymylol ar gyfer Cymru, fel offeryn i gyd-fynd ag agwedd y Mynegai Amddfadedd cyffredinol sydd yn canolbwyntio ar grynoadau amddifadedd

4. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu Fframwaith Amddifadedd Cymru Gyfan, yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael ag amddifadedd o bob math ac asesu'r angen i ystyried gwahanol ddulliau gweithredu ar gyfer ardaloedd trefol, ardaloedd gwledig hygyrch ac ardaloedd gwledig anghysbell

5. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio adnabod mecanweithiau i ledaenu twf o ardaloedd twf i ardaloedd o angen, llawer ohonynt mewn ardaloedd gwledig. Byddai cefnogaeth i hyn o du'r Cynulliad gyda golwg ar ymestyn y gwersi hynny i'r gweddill o'r Gymru wledig o fudd mawr

5. Dylai'r ymgynghoriad ar Cymunedau Nesaf a'r rhaglen ariannu a fydd yn dod o hynny roi sylw gwirioneddol i natur amddifadedd gwledig a'r angen i ymateb iddo mewn ffordd ystyrlon yn hytrach nag awgrymu y gellid pecynnu atebion o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig

ATODIAD 1

A. Gwynedd – Ardal ymylol iawn gyda phoblogaeth wasgarog

1. O safbwynt arwynebedd tir, mae Gwynedd yn sir eang, gyda phoblogaeth wasgarog, wedi ei lleoli ymhell o ganolfannau poblog a marchnadoedd economaidd mawr. Oherwydd ei bod yn sir mor ymylol, mae'n anodd iddi ddatblygu strwythur economaidd cytbwys. Mae tystiolaeth hanesyddol yn dangos bod tuedd cynyddol ymhlith pobl ifanc yr ardaloedd mwyaf gwledig yng Ngwynedd i ymfudo i brif drefi'r Sir a thu hwnt i'r sir i chwilio am waithac amgylchedd gymdeithasol mwy cyffrous. Ansicr yw'r rhagolygon ar gyfer economi wledig Gwynedd o ystyried y dibyniaeth ar y sector gyhoeddus a pa mor fregus yw amaethyddiaeth a thwristiaeth a bod y gwaith o ddatgomisiynu atomfa Trawsfynydd yn debygol o gael ei gwblhau yn ystod y 5 mlynedd nesaf, y bydd llai o waith ar gael yn y sector cyhoeddus o ganlyniad i dargedau effeithlonrwydd a chydweithredu, ac y collir swyddi a chyfleoedd o ansawdd mewn ardaloedd cyfagos, megis Gorsaf Bŵer yr Wylfa.

2. Mae dwysedd poblogaeth yn brin yn ardaloedd gwledig ac arfordirol Gwynedd - mae hyn yn effeithio ar y gost o ddarparu gwasanaethau a'r defnydd ohonynt ac yn creu problemau o safbwynt cysylltu gyda phobl i roi gwybod iddynt am gyfleoedd economaidd a chymdeithasol

3. Isod rydym yn rhestru rai ffeithiau perthnasol am Wynedd ac am effaith ei leoliad ymylol ar les economaidd a chymdeithasol yr ardal.

Ffigwr 1: Rhai ffeithiau hanfodol am Wynedd a gyrwyr allweddol amddifadedd

- **Ardal ymylol:**
  - *Mae rhai rhannau o'r Sir tua 140 milltir o bellter oddi wrth faes awyr rhyngwladol megis Maes Awyr Manceinion,*
  - *Dim ond arfordir y Gogledd sy'n cel ei wasanethu gan y prif wasanaeth rheilffordd ac mae rhannu o Wynedd yn bell iawn o brif wasanaethau teithwyr a nwyddau*
  - *Yn ystod 2005, roedd lefelau amddifadedd mynediad at wasanaethau lawer gwaeth yng Ngwynedd na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan,*
  - *Mae rhai rhannau o'r Sir cyn belled â 40 milltir oddi wrth draffordd.*

- **Marchnad dai lle mae pobl sydd ar incwm isel yn ei chael yn anodd prynu tŷ ac mae lefelau tai anaddas yng Ngwynedd ymhlith y gwaethaf yng Nghymru:**
  - *Yn 2005, roedd lefel amddifadedd tai yn llawer gwaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan,*
  - *Yng Ngwynedd yn 2005 roedd y gymhareb prisiau tai cyfartalog i gyflog cyfartalog yn 8:1*

- **Cyflogau a chyfraniad economaidd isel:**
  - *Yn Ebrill 2003,roedd cyflogau yng Ngwynedd yr isaf yng Nghymru, a mwy na chwarter ohonynt yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain gyfan,*
  - *O'r 12 rhanbarth yng Nghymru lle'r amcangyfrifwyd Gwerth Ychwanegol Gros ar gyfer 2001, roedd Gwynedd yr 11fed ar y rhestr o safbwynt maint yr economi, ac roedd Ynys Môn yn y 12fed safle.*

- **Dwysedd isel y boblogaeth:**
  - *Yn dilyn Powys a Cheredigion, Gwynedd yw'r sir gyda'r dwysedd poblogaeth isaf,*

    Y tu allan i'r ardaloedd trefol, mae dwysedd poblogaeth yn isel iawn – ar gyfartaledd mae'r dwysedd mor isel â 0.47 person yr hectar yn ardaloedd gwledig ac arfordirol y rhanbarth

Tlodi gwledig – Rhywbeth gwahanol

4. Casglwyd tystiolaeth sylweddol yn dangos bod amddifadedd mewn ardal wledig yn wahanol i'r math a geir mewn ardal drefol. Darganfu gwaith ymchwil a gwblhawyd ar gyfer Sefydliad Joseph Rowntree (2000) bod llawer o ardaloedd gwledig yn dod yn fwyfwy atyniadol i'r haen fwy cyfoethog mewn cymdeithas a bod y rhai hyn yn gallu prynu'r tai tra bod y bobl sydd ar gyflogau isel yn gorfod chwilio am gartrefi mewn mannau eraill, a hynny yn rhannol oherwydd diffyg tai cymdeithasol. Materion allweddol a nodwyd yw'r canlynol:

   - Diffyg mynediad at wasanaethau
   - Pellter oddi wrth waith
   - Cyflogau isel
   - Diffyg cludiant a thai fforddiadwy
   - Nid yw pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn eu cydnabod eu hunain fel pobl difreintiedig.

Tlodi ac Amddifadedd mewn ardaloedd gwledig – Canlyniad prosesau yn ymwneud â phoblogaeth isel ac ardal ymylol

5. Yn gyffredinol ystyrir tlodi yn bennaf fel diffyg gofynion hanfodol y mae unigolion a theuluoedd eu hangen er mwyn bod yn aelodau rhesymol o gymdeithas. Ymhelaethodd Townsend (dyfynnwyd ym Milbourne, 2005) ar y cysyniad hwn o dlodi perthynol trwy adnabod trothwy tlodi uwch na lefel budd-daliadau gwladol. Er y gellir edrych ar dlodi fel canlyniad, yn aml gellir olrhain ei wreiddiau i'r broses o amddifadu ac eithrio, pan na fydd pobl yn gallu bod yn aelodau llawn o'r gymdeithas nac o'r farchnad lafur oherwydd nifer fawr o rwystrau.

Economi o ansawdd wael – oherwydd bod yr ardal yn anghysbell a gwledig

6. Oherwydd ei lleoliad ymylol, mae strwythur economaidd Gwynedd yn fregus. Gan fod yr amgylchedd o ansawdd uchel, mae cyfran uchel o'r gwaith sydd ar gael yn y sector twristiaeth – yn 2006 roedd 14.3% o'r boblogaeth oed gwaith yn gyflogedig mewn diwydiannau yn ymwneud â thwristiaeth o gymharu â chyfartaledd Prydain gyfan sef 8.3%. Cysylltir y diwydiant twristiaeth â chyflogau gweddol isel – yn 2007, ar gyfartaledd roedd cyflog gweithiwr llawn amser yn y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn £294.70, o gymharu â £308.30 ar gyfer unrhyw swydd yn y gwasanaethau a £331.70 am swyddi yn gyffredinol. Mae'r map isod yn dangos yr amrywiaeth mewn cyflogau ar lefel leol, gyda rhai o'r cyflogau isaf ar lefel wardiau i'w canfod yn yr ardaloedd gwledig mwyaf gorllewinol. Mae hyn yn enghraifft o'r gwahaniaeth a welir rhwng yr ardaloedd anghysbell iawn a'r rhai mwy hygyrch yng nghefn gwlad – mae'r ardaloedd mwyaf anghysbell yn perfformio'n waelach ar ddangosyddion amddifadedd na'r ardaloedd mwy hygyrch.

Ffigwr 5 - Incwm teuluol blynyddol cymedrig fesul ward yn 2003

Figure 5

Mean annual household income in 2003 by wards



Cyfartaledd incwm teuluol blynyddol (£)

7. Canfu gwaith ymchwil diweddar ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (ESYS 2006) bod nifer y swyddi wedi cynyddu'n sylweddol yng ngogledd orllewin Cymru rhwng 1998 a 2004, ond mai yn y sectorau ychwanegu gwerth isel megis adwerthu, twristiaeth, prosesu bwyd a chynhyrchu gwerth isel yr oedd y cynnydd. Roedd y gwaith ymchwil hefyd yn rhagweld llai o dwf mewn cyflogaeth dros y 10 mlynedd nesaf ond er hynny twf uwch na'r cyfartaledd mewn sectorau gwerth isel megis iechyd a gofal cymdeithasol (o ganlyniad i newidiadau demograffig), adwerthu a thwristiaeth. Golyga hyn bod y rhagolygon ar gyfer Gwynedd a Gogledd Orllewin Cymru, heb ymyrraeth strategol, yn debygol o arwain at gynnydd mewn sectorau gwerth isel, gyda chyflogau cymharol isel, sydd yn annhebygol o ddenu pobl i aros yn y Sir nac i ddychwelyd iddi.

8. Canfu gwaith ymchwil a gwblhawyd gan Gyngor Gwynedd (2006) mai swydd o ansawdd yw swydd ddiogel, sydd yn rhoi boddhad ac yn talu'n dda. Tuedda'r mathau hyn o swyddi fod yn brin yng Ngwynedd, heb ymyrraeth strategol, a maent yn debygol o barhau felly.

9. Mae hunan gyflogaeth yn ffynhonnell gwaith arwyddocaol mewn ardaloedd gwledig - yn 2001 roedd y ffigwr yn 26.6% o'r rhai oedd mewn gwaith yn Llanuwchllyn, 24.3% yn Llanengan a 23.6 yn Llandderfel. Haerai gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree (1998) bod dibynnu ar weithleoedd bychain yn gallu clymu pobl i waith gyda chyflogau isel:

   "Mae'r achosion o ddiweithdra parhaus yn is ond mae'r achosion o gyflogau isel yn uwch mewn ardaloedd gwledig nac mewn ardaloedd trefol. Dengys dadansoddiad o'r nodweddion allweddol a gysylltir gyda chyflogau isel yn gyffredinol nad oes nemor ddim gwahaniaeth arwyddocaol rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Ychydig o'r rhai sydd yn gweithio mewn gweithleoedd gwledig bychain am gyflog isel sydd yn llwyddo i 'ddianc' ac mae eu hymlyniad wrth waith yng nghefn gwlad yn awgrymu bod diffyg cyfleoedd i symud a gweithio i gyflogwyr mwy yn ffactor eglurhaol bwysig." (JRF 1998) – cyfieithiad.

10. Yn ystadegol mae hygyrchedd gwaith yn cael dylanwad positif a sylweddol ar lefel cyflogaeth – yn ôl gwaith diweddar gan Anne Green (2006) mae bod yn agos at gyfleoedd gwaith yn cynyddu'r posibilrwydd o sicrhau gwaith ac mae sbarduno'r galw am weithwyr yr un mor bwysig â chynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau. Oherwydd natur llawer ardal wledig anghysbell o gymharu ag ardal wledig fwy hygyrch, nid yw pobl yn agos at gyflogwyr ac felly mae'r galw am lafur yn gymharol isel.

Anfantais mewn ardaloedd ymylol – mesur problem wahanol

11. Roedd Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru 2005, er gwaethaf ei gyfyngiadau o safbwynt canfod elfennau llai dwys o amddifadedd, yn amlygu amddifadedd tai a mynediad at wasanaethau yng Ngwynedd. Roedd y sefyllfa hon i'w chanfod hefyd ym Mynegrif 2000. Yn ein ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu Mynegrif Amddifadedd Lluosog yn y dyfodol, fe wnaethom argymell y dylid cynnwys adran ar ansawdd swyddi yn y Parth Cyflogaeth, fel dull o adlewyrchu'r amrediad gwael o swyddi y mae'n bosibl eu canfod mewn ardaloedd gwledig.

12. Caiff Gwynedd ei osod bob amser yn agos i waelod y gynghrair cyflogau yng Nghymru – yn 2006, amcangyfrifwyd bod incwm teuluol canolrif yng Ngwynedd yn £22,707, sef yr 20fed allan o 22 Awdurdod Lleol - Blaenau Gwent a Merthyr Tudfil yn unig oedd â chyfartaledd incwm teuluol is.

13. Yn yr ymateb i'r bwriad o adolygu Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 a fynegwyd gan Central Wales Plus, gofynnodd y grŵp i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried datblygu Fframwaith Amddifadedd Cymru Gyfan. Ar y funud, ymddengys bod dulliau gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn canolbwyntio ar Cymunedau'n Gyntaf, gan roi sylw arbennig i ardaloedd bach iawn a'r tueddiad i leoli "atebion" i'r "problemau" mewn un ardal yn unig.

14. Rhoddir cryn sylw i'r casgliad bod tlodi – tlodi gwledig yn arbennig - wedi ei guddio, oherwydd natur wasgarog y boblogaeth a thystiolaeth anecdotaidd bod pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig yn llai tebygol o wneud cais am fudd-daliadau. Yn yr 1990au cynnar dangosodd ymchwil gan Cloke et al (1997) bod ar gyfartaledd 28% o deuluoedd mewn 4 ardal wledig yng Nghymru yn byw mewn tlodi, neu yn ymylu ar hynny. Dangosodd gwaith ymchwil gan Arsyllfa Wledig Cymru (2005) bod cyfradd y bobl oedd yn derbyn Credyd Treth Teuluoedd Mewn Gwaith yn uwch mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol, a bod cyfradd uchaf y rhai oedd yn derbyn budd-daliadau yn yr ardaloedd gorllewinol a mwy ymylol a gwledig – Sir Benfro, Ynys Môn, Gwynedd a Sir Gaerfyrddin. Mae'r dyfyniad canlynol o'r adroddiad yn tanlinellu'r rhaniad rhwng ardaloedd mwy ymylol ac ardaloedd llai ymylol a derbyn budd-daliadau:

    "mae'r patrwm gofodol dwyrain-gorllewin mwyaf trawiadol yn amlwg…cyfradd y bobl sy'n derbyn Budd-daliadau Ceiswyr Gwaith, gyda lefelau uchel o dderbyn budd-daliadau ym mwyafrif wardiau Ynys Môn, gogledd orllewin Gwynedd a de ddwyrain Ceredigion. Mae hefyd yn amlwg bod rhai ardaloedd yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn arddangos proffiliau budd-daliadau cyffelyb i'r Cymoedd." (tud.10) [Cyfieithiad]

CYFEIRIADAU (NJ – angen ei gwblhau)

Milbourne P., Hughes R. (2005): Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru Wledig, adroddiad ar gyfer Arsyllfa Wledig Cymru, Aberystwyth

Sefydliad Joseph Rowntree (2000): Cefn Gwlad Echgynhwysol? Cynhwysiad cymdeithasol ac adfywiad mewn ardaloedd gwledig, Cyfres Sylfaenol, JRF, Efrog

Sefydliad Joseph Rowntree (2005): Monitro tlodi ac eithrio cymdeithasol yng Nghymru 2005, Cyfres Canfyddiadau, JRF, Efrog

Sefydliad Joseph Rowntree (2006): Daearyddiaeth sgiliau gwael a mynediad at waith, Anne E. Green a David Owen, Sefydliad Joseph Rowntree, Efrog

ATODIAD 2

Map o Wardiau gyda anactifedd oed gweithio uchel